

## YMARFER 18: Sylwadau

### **The shocking impacts of extracting peat for use in horticulture<sup>1</sup>**

New analysis has estimated that as much as 31 million tonnes of CO<sub>2</sub> could have been released<sup>2</sup> into the atmosphere<sup>3</sup> since 1990, as a direct result of using peat in gardening<sup>4</sup>, and its use by professional growers of fruit, vegetables, and plants.

The campaign to stop peat extraction took off in the 1990s but only now are the UK and Welsh Governments<sup>5</sup> conducting a public consultation on ending the use of peat in the retail sector by 2024. The Wildlife Trusts believe we cannot wait this long.

Despite thirty years of campaigning against extraction and increased public outcry, peat continues to be sold in vast quantities<sup>6</sup> for amateur and professional horticultural use, with huge consequences for nature and climate.

Industry progress towards peat-free alternatives has been slow and inconsistent, and peat consumption in the UK increased rapidly by 9% as lockdown drove more people to buy compost for gardening.

If peat is left undisturbed – in bogs, not bags<sup>7</sup> – it can store many thousands of tonnes of carbon for millennia to come. However, once peatland habitats are disturbed for extraction<sup>8</sup>, stored carbon becomes carbon dioxide (CO<sub>2</sub>) and is lost to the atmosphere forever, contributing directly to climate change.

The peat extracted for UK horticulture in 2020 could release up to 880,000 tonnes of CO<sub>2</sub> over its lifetime as a growing medium<sup>9</sup>. This amount is equivalent to driving an average passenger car<sup>10</sup> 2.2 billion miles – to the moon and back more than 4,600 times.

#### 1. **Cywair/ Cystrawen**      **The shocking impacts of extracting peat for use in horticulture**

##### Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Yr effeithiau erchyll o echdynnu mawn*
2. *Effeithiau gwarthus*
3. *...ar gyfer ei ddefnyddio o fewn garddwriaeth*

##### Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Effeithiau ysgytwol cloddio mawn i'w ddefnyddio mewn garddwriaeth*

## 2. Effeithiau syfrdanol echdynnu mawn i'w ddefnyddio wrth arddio

### SYLWADAU:

1. Nid yw *erchyll* ('terrible' / 'hideous' / 'ghastly') na *gwarthus* ('disgraceful') yn eiriau priodol i gyfleu '**shocking**' yn y cyd-destun hwn. Efen annisgwyl y canfyddiadau sydd dan sylw yma, yn hytrach na'u heffaith negyddol. Mae *syfrdanol* neu *ysgytwol* yn llawer agosach ati.

2. Hefyd mae *yr effeithiau...o echdynnu* yn glynu'n llawer rhy dynn at y gystrawen Saesneg ac *effeithiau echdynnu* sy'n gywir yn Gymraeg. Ac mae'r un fath yn wir am *ddefnyddio o fewn garddwriaeth* – mae *defnyddio mewn garddwriaeth* yn ddigon. Gellid hefyd dweud 'defnyddio ym maes garddwriaeth', neu byddai *wrth arddio* hyd yn oed yn fwy naturiol yn Gymraeg.

2. **Cystrawen/  
Cywirdeb** ...as much as 31 million tonnes of CO<sub>2</sub> could have been released...

### Cyfieithu aflwyddiannus:

1. ...y gallai hyd at 31 miliwn tonnell o CO<sub>2</sub> wedi cael ei ryddhau
2. ...y gallai cymaint â 31 miliwn o dunelli o CO<sub>2</sub> gael eu rhyddhau

### Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...y gallai hyd at 31 miliwn tonnell o CO<sub>2</sub> fod wedi cael ei ryddhau

### SYLWADAU:

1. Mae'r elfen '**could have been**' yn peri trafferth fan hyn. Yn Afl.1, mae'r cyfieithydd wedi hepgor 'fod', sy'n golygu bod y gystrawen yn wallus – mae angen ychwanegu berfenw at 'gallai' (*y gallai...fod wedi cael ei ryddhau...*). Mae Afl.2 wedi hepgor 'fod wedi' yn llwyr, sy'n newid ystyr y frawddeg i awgrymu y bydd y CO<sub>2</sub> yn cael ei ryddhau yn y dyfodol.

3. **Cywair** ...atmosphere...

### Cyfieithu aflwyddiannus:

1. ...awrygylch...

### Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...atmosffer...

### SYLWADAU:

1. Er bod '*atmosphere*' yn gallu golygu 'awrygylch', nid dyna sydd dan sylw yn y cyd-destun hwn. Mae'r gair 'awrygylch' yn cyfleu naws, ond mae '**atmosphere**' yn y darn hwn yn cyfeirio at yr aer o'n cwmpas. Byddai'n fwy priodol dweud *atmosffer* – mae'n air digon derbyniol yn Gymraeg. Byddai 'amgylchedd' hefyd yn agosach ati o ran ystyr.

4. **Cystrawen** ...as a direct result of using peat in gardening...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *o ganlyniad uniongyrchol defnyddio mawn mewn garddio*
2. *yn ganlyniad uniongyrchol defnyddio mawn mewn gwaith garddio*
3. *fel canlyniad uniongyrchol o ddefnyddio mawn wrth arddio*
4. *o ganlyniad uniongyrchol o ddefnyddio mawn drwy arddio*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...o ganlyniad uniongyrchol i ddefnyddio mawn wrth arddio*

SYLWADAU:

1. Mae dwy elfen wedi peri trafferth yn y cymal yma. Yn gyntaf, 'as a direct result of'. Yn Gymraeg mae angen dweud *o ganlyniad i*, nid *fel canlyniad o* nac *o ganlyniad o* – sy'n dilyn y gystrawen Saesneg yn slafaid. Nid oes modd hepgor yr 'i' chwaith.
2. Yr ail elfen sy'n achosi problem gyda'r gystrawen yw 'in gardening'. Mae *wrth arddio* yn ddigon yn Gymraeg. Mae *mewn garddio* neu *mewn gwaith garddio* yn gyfieithiad llythrennol o'r Saesneg 'in gardening', ac mae *drwy arddio* yn newid yr ystyr rhyw ychydig.

5. **Ystyr** ...the UK and Welsh Governments...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...Llywodraeth Cymru a'r DU*
2. *...mae'r Deyrnas Unedig a'r Llywodraethau Cymreig*
3. *...mae'r DU a'r Llywodraethau yng Nghymru*
4. *...Llywodraethau'r DU a Llywodraeth Cymru*
5. *...Llywodraethau a DU a Chymru*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU*
2. *...Llywodraethau Cymru a'r DU*

SYLWADAU:

1. Weithiau gall elfen ymddangosiadol syml o'r testun beri dryswch annisgwyl drwy beidio ystyried y cyd-destun yn ddigon gofalus. Mae 'the UK and Welsh Governments' yn cyfeirio at ddwy lywodraeth: Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Felly mae'n rhaid enwi'r ddwy, neu gyfeirio at 'Llywodraethau' yn y lluosog.
2. Mae'r enghreifftiau aflwyddiannus uchod i gyd wedi camgyfieithu gan newid yr ystyr – mae Afl.1 yn cyfeirio at Lywodraeth Cymru ac yna'r DU yn ei gyfanrwydd. Mae Afl.2 ac Afl.3 yn gwneud yr un fath, gan ychwanegu'r gwall bod mwy nag un Llywodraeth yng Nghymru. Mae Afl.4 yn awgrymu bod mwy nag un Llywodraeth yn y DU, ac Afl.5 yn gwahanu'r llywodraethau oddi wrth y DU a Chymru fel tair elfen wahanol.

## 6. Cywair

...vast quantities...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. ...*nifer fawr*...
2. ...*niferoedd helaeth*...
3. ...*symiau dirfawr*...
4. ...*mewn swmp*...
5. ...*maint enfawr*...

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...*symiau enfawr*

SYLWADAU:

1. Mae'r geiriau 'nifer' a 'niferoedd' ar gyfer cyfiri unedau unigol (nifer y bobl, nifer y llyfrau ac ati) lle mae modd gosod ffigur pendant. Nid oes modd mesur mawn mewn unedau felly mae *nifer/niferoedd* yn air cwbl anaddas yn y cyd-destun hwn.

2. Mae 'vast' yn llawer mwy na *nifer fawr* ('large number'), *mewn swmp* ('in bulk') neu *helaeth* ('extensive'). Er bod 'dirfawr' yn ymddangos yng Ngeiriadur yr Academi am 'vast', mae'n air llawer mwy haniaethol (yn fwy addas ar gyfer cysyniadau fel poen dirfawr, hiraeth dirfawr, cyfoethogi'n ddirfawr, yn hytrach na phethau y gellir eu gweld a'u cyffwrdd) felly nid yw'n cyfleu'r ystyr mwy diriaethol yn y cyd-destun hwn – byddai *symiau enfawr* yn agosach ati.

## 7. Ystyr

If peat is left undisturbed – in bogs, not bags

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Os caiff mawn ei adael heb ymyrraeth*
2. *Os caiff mawnogydd eu gadael yn llonydd, yn hytrach na mewn bagiau*
3. *Os nad aflonyddir ar fawn – hynny yw mawnogydd, nid bagiau o fawn*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Os caiff mawn ei adael yn llonydd – mewn corsydd, nid bagiau*
2. *Os caiff mawn ei adael heb ei gyffwrdd – mewn corsydd, nid mewn bagiau*

SYLWADAU:

1. Ystyr y cymal hwn yw bod mawn sy'n cael ei adael yn y corsydd lle mae wedi bod ers miloedd o flynyddoedd yn gallu storio carbon am filoedd o flynyddoedd eto. Ond nid yw hynny'n wir pan fydd wedi'i echdynnu a'i roi mewn bagiau neu mewn gerddi, hyd yn oed os bydd yn cael llonydd fan honno. Felly mae angen y cyferbyniad, *mewn corsydd, nid mewn bagiau*.

Mae Afl.1 wedi hepgor yr elfen *corsydd* neu 'mawndiroedd' yn

llwyr, gan golli elfen hanfodol o'r ystyr. Mae Afl.2 wedi hepgor y cyfeiriad cychwynnol at y mawn, ac mae hynny hefyd yn cymylu'r ystyr – nid oes modd rhoi mawnogydd cyfan mewn bagiau. Yn Afl. 3 mae *aflonyddu* yn air amhriodol yn y cyd-destun hwn, ac mae'r mynegiant yn drwsgl, sydd eto yn effeithio ar allu'r darlennydd i ddeall y frawddeg yn iawn.

8. Cywair/  
Cystrawen

**...once peatland habitats are disturbed for extraction...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...unwaith y caiff cynefinoedd mewndiroedd eu haflonyddu ar gyfer ei echdynnu*
2. *...unwaith mae ymyrryd â chynefinoedd mawndiroedd*
3. *...unwaith y caiff cynefinoedd mawndir ei ymyrryd arnynt ar gyfer cloddio*
4. *...unwaith mae cynefinoedd mawndiroedd yn cael eu hymyrru arnynt*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...unwaith y bydd mawndiroedd yn cael eu torri er mwyn echdynnu'r mawn*
2. *...unwaith y caiff tir mawnog ei dorri*

SYLWADAU:

1. Mae *cynefinoedd mawndiroedd* yn gyfieithiad rhy llythrennol o 'peatland habitats' ac mae *mawndiroedd* neu *tir mawnog* yn ddigon yn Gymraeg.
2. Nid yw *aflonyddu* nac *ymyrryd* yn taro deuddeg am 'disturbed', ac eto nid oes angen cyfieithu'n llythrennol fan hyn – byddai *ei dorri* yn cyfleu'r ystyr yn glir. Mae'r gystrawen yn lletchwith yn yr enghreifftiau aflwyddiannus uchod, eto oherwydd yr ymgais i lynu'n rhy dynn at '**are disturbed**' yn Saesneg – *eu haflonyddu / ei ymyrryd arnynt / eu hymyrru arnynt*.

9. Ystyr

**...over its lifetime as a growing medium.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...ar hyd ei oes fel cyfrwng sy'n tyfu.*
2. *...ar hyd ei oes fel cyfrwng cynyddol*
3. *...dros ei oes fel lefel sy'n cynyddu*
4. *...dros y cyfnod y gellir fod wedi bod yn tyfu*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...yn ystod ei oes fel cyfrwng tyfu.*
2. *...yn ystod ei oes fel cyfrwng i dyfu planhigion.*

SYLWADAU:

1. Mae'n hanfodol deall y Saesneg yn iawn cyn ceisio cyfieithu i'r Gymraeg. Ystyr llythrennol '**growing medium**' fan hyn yw 'rhywbeth sy'n cael ei ddefnyddio i dyfu planhigion'. Nid y

'cyfrwng' sy'n tyfu felly – a dyna'r camgymeriad yn Afl.1, Afl.2, Afl.3. Mae Afl.4 yn gwbl aneglur.

2. Yn yr enghreifftiau llwyddiannus uchod, mae Ll.1 yn gywir (er efallai braidd yn llythrennol), a Ll.2 yn llawer mwy eglur o ychwanegu'r elfen *planhigion*.

## 10. Cywair

...average passenger car...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. ...*car modur tebygol*
2. ...*cerbyd cyffredinol*
3. ...*car teithwyr arferol*
4. ...*car teithwyr cyfartalog*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...*car cyffredin*

SYLWADAU:

1. Mae perygl o or-gymhlethu testun syml yn ddiangen wrth gyfieithu. Yn yr achos hwn, mae *car cyffredin* yn hen ddigon i gyfleu '**average passenger car**'. Nid oes angen cyfieithu'r elfen 'passenger' gan nad yw *car teithwyr* yn eiriad naturiol yn Gymraeg. Car yw car!!

2. Nid yw *tebygol* ('likely') na *cyffredinol* ('general') yn briodol o gwbl ar gyfer '**average**', ac er bod 'cyfartalog' yn golygu 'average' (ee cyflog cyfartalog = 'average wage') mae hefyd yn amhriodol fan hyn gan mai '*ordinary*' yw ystyr 'average' yn y cyd-destun hwn.